Crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd

SUT Y BYDDWN YN DEFNYDDIO'CH GWYBODAETH

Bydd Cartrefi Caerffili'n casglu a phrosesu gwybodaeth amdanoch chi, er mwyn eich galluogi i reoli'ch tenantiaeth tai a/neu garej yn llwyddiannus a delio â'r cyllid sy'n gysylltiedig â'r denantiaeth honno. Efallai y byddwn hefyd yn defnyddio'r wybodaeth hon i roi'r cyfle i chi gymryd rhan mewn ymgysylltu â thenantiaid/cynnwys tenantiaid. Byddwn hefyd yn cofnodi ac efallai prosesu gwybodaeth ar bobl eraill sy'n byw gyda chi i sicrhau nad yw'r eiddo'n orlawn ac i asesu materion rheoli tenantiaeth eraill sy'n ymwneud â phobl eraill yn eich cartref. Efallai y bydd achlysuron pan fyddwn yn casglu a phrosesu gwybodaeth am bobl nad ydynt yn denantiaid er mwyn rheoli cysylltiad ganddynt neu mewn cysylltiad â rhwymedigaeth gyfreithiol.

Y sail gyfreithiol ar gyfer casglu a phrosesu'ch gwybodaeth yw tasg gyhoeddus, rhwymedigaeth gytundebol a buddiant dilys. Byddwn yn cadw gwybodaeth yn ymwneud â thenantiaeth cyhyd â bod y contract yn weithredol neu pan fo arian yn ddyledus ar gyfrif sy'n gysylltiedig â thenantiaeth ac am gyfnod isafswm o 7 mlynedd ar ôl terfynu tenantiaeth.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

Am ragor o wybodaeth am sut rydym yn prosesu'ch gwybodaeth a'ch hawliau, ewch i wefan y Cyngor gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol:

https://www.caerphilly.gov.uk/CaerphillyDocs/FOI/PrivacyNotices/Privacy-Notice-Tenancy-Agreement-cy.aspx

Diogelu

Mae Cartrefi Caerffili wedi ymrwymo i sicrhau bod ein tenantiaid a'r bobl hynny sy'n byw yn ein cartrefi yn ddiogel ac yn cael eu gwarchod.

Mae gan ein staff ddyletswydd gofal, mae hyn yn golygu bod rhaid iddyn nhw weithredu os oes ganddyn nhw wybodaeth, pryderon neu amheuon bod plentyn neu oedolyn yn dioddef, wedi dioddef, neu'n debygol o fod mewn perygl o niwed.

Mae yna ystod o ymddygiadau a all olygu bod rhywun yn cael ei gam-drin:

- corfforol
- rhywiol
- emosiynol / Seicolegol
- esgeulustod
- ariannol

Lle mae gennym ni bryderon fod cam-drin yn digwydd, byddwn ni'n cymryd rhai o'r camau canlynol, neu bob un ohonyn nhw:

- ceisio siarad â chi am ein pryderon
- cofnodi ein pryderon yn ein cofnodion cyfrinachol ac unrhyw ganlyniadau o'n hymholiadau
- rhoi gwybod am ein pryderon i'r gwasanaethau proffesiynol priodol i'w hymchwilio
- work in partnership with you, your family and support services on any action plans

Os oes gennych chi unrhyw bryderon amdanoch chi'ch hun neu aelodau o'ch cartref, cysylltwch â ni. Rydyn ni'n cymryd pryderon diogelu o ddifrif ac yn delio ag unrhyw bryderon sy'n cael eu hadrodd mewn modd sensitif a chyfrinachol. Mae ein staff yn derbyn hyfforddiant diogelu.

Gallwch chi hefyd gael eiriolwr neu gynrychiolydd i siarad â ni ar eich rhan, neu fynd at y Gwasanaethau Cymdeithasol yn uniongyrchol, drwy'r manylion cyswllt isod.

Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (Plant) –0808 100 1727, Email: GCCHPlant@caerffili.gov.uk

Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (Oedolion) – 0808 100 2500, Email GCChOedolion@caerffili.gov.uk